Cylchlythyr Ysgol Glanwydden Newsletter
May 2017

Half Term - 29/5/17 - 2/6/17

Staff Training Day 5/6/17 - No school for pupils

Staff

Mr Baker and Mrs Whittle will be leaving us at the end of the month. Many thanks to them for all their hard work and commitment to the school over the years.

Safeguarding

As you are aware the safeguarding of our pupils is given very high priority and it is the responsibility of all staff to be vigilant of visitors to the school and members of the public within or outside our boundaries. Sometimes some of you may walk past the school and talk to pupils you know, therefore please do not be alarmed if a staff member asks who you are if they don't recognise you. We also ask you kindly to avoid disrupting outdoor lessons if you are passing through the yard as this can affect the flow of a lesson and the concentration of the pupils. Thank you.

PTA Sponsored Walk

Many families joined the PTA and teachers on Sunday morning 7th of May. We walked along the Prom to Rhos on Sea. Thanks to your support we raised £115 for the school and over £220 to be split between two charities—The Alzheimer's Society and St David's Hospice. Staff will be participating in the Dragon Boat Race in July and any funds raised will be donated to St David's Hospice.

Urdd Athletics

On 17th May Urdd members attended the Llandudno area Urdd Athletics competition at Ysgol Nant y Coed. The results are as follows:- Yr 3&4 600m race 1st Theo Groom; Yr 3&4 Girls relay 2nd; Yr 3&4 Ball Throwing 3rd Catrin Jones; Yr 3&4 Javellin 3rd Catrin Jones; Yr 5&6 600m race 2nd Mac Outten; Yr 5&6 600m race girls 3rd Amy Richardson; Yr 5&6 Long Jump 3rd Ruby Omar; Yr 5&6 Javellin 1st Sophie Rawling.

All thoses who got 1st, 2nd or 3rd in track races, 1st in relays and 1st or 2nd in field events will go on to the County sports at Eirias 6th June at 4:30pm. Good luck to them all.

School Uniform Order

If you need to order any uniform for the new academic year, please contact the office with your order by **WEDNESDAY 7th JUNE** at the latest.

Transition

On Thursday 11th May our year 5 pupils visited Ysgol y Creuddyn for an hour transition lesson in music. Also our year 6 pupils will soon be visiting their new schools - Creuddyn from June 5th, John Bright w/c July 3rd and Eirias from July 4th.

Year 3 and 4 trip

As part of their literacy studies, pupils in year 3 and 4 visited Venue Cymru to watch a production of 'Babe'.

Urdd Eisteddfod

All the best to Evie Powell and Sara Williams who are competing at the Urdd National Eisteddfod at Bridgend during the half term holiday.

Important Dates

Half Term	29/5/17 - 2/6/17
Staff Training - no school	5/6/17
Reception class Trip	13/6/17
Yr 1 and 2 Trip	15/6/17
Summer Fair	29/6/17
End of Term	21/7/17

Outside Project

Thank you very much for the excellent turn-out at the Nursery to Yr 2 DVD night on Monday 22nd May. This was a brilliant start to our Outside Project fundraising.

Some parents have asked to hold a 'Table Top Sale' on the school yard. This will take place on Friday, June 16th between 3 and 3:30 pm . If you are interested in having your own table, please contact the class teacher or the school office. There will be no charge for the table, but a small donation of your proceeds would be kindly appreciated towards our project.

Attendance

As you are aware, the schools attendance target is over 95%. The top three performing classes during May were:-

Mrs Jones' class 98.9%; Miss Wheway's class 97.9% and Mrs Southall-Jones' class 96.6%.

This newsletter and much more is available on the school web-site by visiting: **www.ysgolglanwydden.co.uk**

Cylchlythyr Ysgol Glanwydden Newsletter
Mai 2017

Hanner Tymor - 29/5/17 - 2/6/17

Diwrnod Hyfforddiant Staff 5/6/17 - Dim ysgol i'r plant

Staff
Bydd Mr Baker a Mrs Whittle yn ein gadael diwedd y mis. Llawer o ddiolch iddynt am eu gwaith caled ac ymrwymiad i'r ysgol dros y blynyddoedd diwethaf.

Taith Gerdded CRhA
Daeth nifer o deuluoedd ynghyd bore Sul 7fed o Fai i gerdded o'r Promenâd i Landrillo yn Rhos gyda athrawon ac aelodau CRhA. Casglwyd £115 at yr ysgol a dros £220 i'w rannu rhwng y Gymdeithas Alzheimer a Hosbis Dewi Sant. Diolch am eich cefnogaeth. Hefyd, bydd rhai aelodau staff yn cymryd rhan yn her Cychod Draig ym mis Gorffennaf a bydd yr arian a gesglir ganddynt yn mynd tuag at yr hosbis.

Dyddiadau Pwysig

Hanner Tymor	29/5/17 - 2/6/17
Hyfforddiant Staff - dim ysgol	5/6/17
Trip Dosb. Derbyn	13/6/17
Trip Bl 1 a 2	15/6/17
Ffair Haf	29/6/17
Diwedd Tymor	21/7/17

Diogelwch
Fel rydych yn ymwybodol, mae diogelwch ein disgyblion yn cael y flaenoriaeth fwyaf yn yr ysgol ac mae'n gyfrifoldeb ar ein staff i fod yn wyliadwrus o ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd tu mewn a thu allan i derfynau'r ysgol. Mae rhai rhieni ar brydiau yn cerdded heibio'r ysgol ac yn siarad gyda disgyblion maent yn adnabod, felly peidiwch â dychryn os bydd aelod o'r staff yn gofyn pwy ydych chi os nad ydynt yn eich adnabod. Hefyd, gofynnwn yn garedig os byddwch yn cerdded drwy fuarth yr ysgol pan fydd gwersi tu allan yn cael eu cynnal, i beidio amharu ar y wers os gwelwch yn dda.

Mabolgampau'r Urdd
Aeth rai o aelodau'r Urdd i Ysgol Nant y Coed i gymryd rhan yn Mabolgampau'r Urdd ar 17eg o Fai. Dyma'r canlyniadau:- Bl 3&4 râs 600m 1af Theo Groom; Bl3&4 râs gyfnewid i ferched 2il; Bl3&4 Taflu Pel 3ydd Catrin Jones; Bl3&4 Taflu Gwaywffon 3ydd Catrin Jones; Bl 5&6 râs 600m 2il Mac Outten; Bl 5&6 râs 600m i ferched 3ydd Amy Richardson; Bl 5&6 naid hir 3ydd Ruby Omar; Bl 5&6 Taflu Gwaywffon 1af Sophie Rawling.
Bydd disgyblion a ddaeth yn 1af, 2il neu 3ydd yng nghystadleuthau trac, 1af mewn râs gyfnewid a 1af neu 2il yng nghystadleuthau maes yn mynd ymlaen i gystadlu yn y mabolgampau Sir yn Eirias 6ed Mehefin am 4:30yh. Pob lwc iddynt.

Trip Blwyddyn 3 a 4
Aeth disgyblion Bl 3 a 4 i Venue Cymru yn ddiweddar i wylio cynhyrchiad o 'Babe' fel rhan o'u hastudiadau llythrennedd.

Prosiect Ardal Tu Allan
Diolch yn fawr am y gefnogaeth ardderchog i noson DVD y babanod nos Lun 22ain Mai. Roedd y noson yn ddechrau gwych i'n Prosiect.
Mae rhai rhieni wedi gofyn i ni gynnal Arwerthiant Bwrdd ar fuarth yr ysgol. Bydd yr arwerthiant yn cael ei gynnal dydd Gwener, 16eg Mehefin rhwng 3 a 3:30yp. Os oes gennych ddiddordeb mewn cynnal bwrdd, cysylltwch â swyddfa'r ysgol neu athrawes dosbarth. Ni fyddem yn codi i gael gosod bwrdd ond gwerthfawrogir rhodd fechan o'ch elw tuag at ein prosiect. Diolch.

Archeb Gwisg Ysgol
Os byddwch angen archebu gwisg ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, cofiwch roi eich archeb i'r Swyddfa erbyn **DYDD MERCHER** 7fed Mehefin fan bellaf.

Pontio
Aeth disgyblion Bl5 i Ysgol y Creuddyn 11fed Mai i gael gwers cerddoriaeth. Hefyd bydd disgyblion Bl6 yn cael cyfle i ymweld a'u hysgolion newydd - Creuddyn Mehefin 5ed, John Bright 3ydd Gorffennaf ac Eirias 4ydd Gorffenaf.

Eisteddfod yr Urdd
Mi fydd Evie Powell a Sara Williams yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenybont ar Ogwr yn ystod gwyliau'r hanner tymor. Pob hwyl iddynt.

Presenoldeb
Fel rydych yn ymwybodol, mae gan yr ysgol darged presenoldeb o 95%. Y tri dosbarth a berfformiodd orau yn ystod mis Mai oedd dosbarth Mrs Jones 98.9%; dosbarth Miss Wheway 97.9% a dosbarth Mrs Southall-Jones 96.6%.

Mae'r cylchlythyr hon a llawer mwy o wybodaeth am yr ysgol ar ein gwefan— **www.ysgolglanwydden.co.uk**